



Cylch
Meithrin Y
Gurnos yn ennill Cylch
Meithrin Cymraeg
gorau De
Ddwyrain Cymru
**Darllen mwy ar
tudalen 8**



Dilynwch ni Facebook
merthrytydfilCBC



Dilynwch ni X
@merthyrCBC



Dilynwch ni Instagram
merthrytydfilcbc



Ymwelwch â ni
merthyr.gov.uk



Croeso i Rifyn y Gaeaf Cylchgrawn Cyswllt

Mae wedi bod yn gyfnod prysur iawn ers rhifyn yr haf, ac erbyn hyn mae'r nosweithiau tywyll a'r tywydd oer wir wedi cyrraedd. Fel arfer, rydym am i chi a'ch teuluoedd gadw'n iach a theimlo'n barod i'r gaeaf. Gallwch ddod o hyd i gyngor da a rhifau ffôn i'w ffonio mewn argyfwng ar **dudalen 3**.

Mae dweud eich dweud yn fwy pwysig nag erioed, ac rwy'n annog pob preswlydd i gymryd rhan yn ein hymgyngoriadau ynghylch Gosod Cyllid a'r Arolwg Preswylwyr hanner blwyddyn. Rydym yn chwilio am aelodau newydd i'w muno â'r Panel Dinasyddion newydd sbon, darllenwch ragor ar **dudalen 2**.

Roeddwn wrth fy modd i fynychu digwyddiad Cwpan Rygbi'r Byd lle gwelwyd ugain o'n hysgolion talentog yn cystadlu ac yn mwynhau diwrnod o chwaraeon llwyddiannus, darllenwch ragor ac edrychwch ar luniau a dynnwyd ar y diwrnod ar **dudalen 3**.

Mae llawer wedi bod yn digwydd yn Nhŷ Bargoed Newydd, yn cynnwys dyfodiad tŷ gwyrdd newydd sy'n cael llawer o ddefnydd gan y garddwyr da hynny ymysg y preswylwyr a'r staff. Darllenwch dudalen 3 i weld rhagor. Hefyd, mae preswylwyr talentog wedi cychwyn Grŵp Barddoniaeth, ac maent wedi rhannu cerdd brydferth, llawn teimlad gyda ni. Peidiwch â'i cholli ar **dudalen 8**.

Ar dudalen 6 darllenwch y diweddara ynghylch y gwaith adnewyddu trawadol sy'n mynd yn ei flaen. Darllenwch am 200 o gartrefi newydd fydd yn cyrraedd Abercannaid cyn hir, yn ogystal â'r gwesty moethus fydd yn cael ei adeiladau ar safle siop fara Howfields gynt, yng nghanol y dre.

Rwy'n gyffrous i rannu'r newyddion gyda chi bod Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo'r cynllun nawdd ar gyfer aildatblygiad safle'r hen orsaf fws. Dyma ddiweddariad cadarnhaol, i'w groeso, i'n tref! Darllenwch ragor ar **dudalen 7**.

Gan ein bod yn sôn am ganol ein tref, pam na wneuch chi fanteisio ar y parcio, sy'n rhad ac am ddim, dros dymor yr ywl? Gallwch barcio'n rhad ac am ddim bob dydd Gwener a dydd Sadwrn o nawr tan ddydd Gwener yr 21ain o Ragfyr. Dewch i ni gael siopa'n lleol a chefnogi'r busnesau lleol anhygoel y Nadolig hwn. Gallwch hyd yn oed fynd cam ymhellach gyda Charden Rhodd unigryw Merthyr, rhagor ar **dudalen 8**.

Rwy'n gobeithio y byddwch yn mwynhau Rhifyn y Gaeaf o Cyswllt, mae'n llawn straeon cadarnhaol ac mae'n allu gwaith gwych a llwyddiannau nifer o'r preswylwyr, y grwpiau a'r sefydliadau o fewn ein bwrdeistref sirol. I gloi, hoffwn ddymuno Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i bob un ohonoch.

G. Thomas

Y Cynghorydd Geraint Thomas
Arweinydd

Proses gosod cyllideb y Cyngor

Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i bob Awdurdod Lleol osod ei gyllideb a'i Dreth Gyngor bob blwyddyn ariannol. Yn ystod y broses hon gofynnir i breswylwyr am eu barn ar sut y dylai'r Cyngor wario ei gyllideb a sut y dylid gosod Treth y Cyngor.

Dechreuodd y broses ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 ym mis Tachwedd 2023 a bydd yn para am 12 wythnos, tan ddechrau mis Chwefror 2024.

Rydym ni, fel pob cyngor ar draws y DU, yn parhau i wynebu cyfnod heriol. Dros y 15 mlynedd diwethaf, ers y wasgfa gredyd, mae cynghorau wedi wynebu toriadau yn y gyllideb sydd wedi peri inni gael trafferth i fantoli'r gyllideb tra'n cynnal gwasanaethau hollbwysig.

Mae eich barn yn bwysig i ni. I ddweud eich dweud ewch i smartsurvey.co.uk/s/MTCCBCBudget24-25 neu mae copïau papur ar gael yn adeiladau'r Cyngor.

Bydd Aelodau'r Cabinet hefyd yn ymweld â gwahanol leoliadau cy-munedol i ymgysylltu â'n preswylwyr.

Yn ystod cam nesaf y broses, bydd Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i bob Cyngor ledled Cymru beth fydd eu setliad cyllideb dros dro. Mae hyn fel arfer yn hwyr ym mis Rhagfyr, ac ar y pwynt hwn bydd gennym well syniad o ba arian a roddir inni i ddarparu ein gwasanaethau.

Ddechrau mis Mawrth bydd setliad cyllideb terfynol yn cael ei gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ac ar y pwynt hwn, ynghyd ag adborth preswylwyr o'r ymgynghoriad ar y gyllideb, bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn i gymeradwyo cyllideb y Cyngor ac i osod Treth y Cyngor.

Dyddiadau allweddol:

- 20 Rhagfyr 2023: Setliad Dros Dro gan Lywodraeth Cymru
- Dechrau Chwefror 2024: Adborth o'r Broses Ymgynghori ar y Gyllideb
- Dechrau mis Mawrth: Setliad Cyllideb Terfynol gan Lywodraeth Cymru
- 6 Mawrth 2024: Cyngor Arbennig Gosod Cyllideb Dros Dro

Ymunwch â'n Panel ar-lein i Ddinasyddion



Mae hwn yn gyfle cyffrous i gynorthwyo i ddatblygu gwasanaethau lleol! Rydym yn gwahodd preswylwyr i ymuno â ni a bod yn rhan o wella bywydau'r rheini sydd yn byw a gweithio ym Merthyr Tudful. Bydd y panel hwn yn gymorth i ni ddeall safbwyntiau'n preswylwyr ar amrywiaeth eang o faterion fel darpariaeth ein gwasanaethau rheng flaen, yr amgylchedd a'r economi leol. Bydd adborth o'r panelu yn hysbysu'n penderfyniadau ac yn ein

cynorthwyo i wneud y pethau iawn er mwyn cyflawni anghenion pobl leol. Nid oes angen fawr o ymroddiad; byddwch yn cael eich gwahodd i gyfranogi ar-lein mewn arolygon barn, er enghraifft a gallwch ddewis pa weithgareddau yr hoffech fod yn rhan ohonynt.

Os oes gennych ddiddordeb i fod yn rhan o hyn, e-bostiwch corporate.communications@merthyr.gov.uk

Arolwg Preswylwyr 2023- 24

Pa mor fodlon ydych chi fel preswlydd ym Merthyr Tudful?

Gadewch inni wybod a chael cyfle i ennill talebau Tesco gwerth £100.

Fel defnyddiwr o wasanaethau cyhoeddus ym Merthyr Tudful, mae'r Cyngor yn eich gwahodd i gymryd rhan yn ein Arolwg Preswylwyr.

Rydym am gael eich barn ar eang o faterion a gwasanaethau

sy'n berthnasol i Ferthyr Tudful, yn cynnwys addysg, gofal cymdeithasol a rheoli gwastraff. Gellir gweld yr arolwg ar-lein ar

smartsurvey.co.uk/s/ResidentsSurvey2023

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, os hoffech help i lenwi'r ffurflen, neu os hoffech gael copi o'r holiadur mewn fformat neu iaith arall, e-bostiwch corporate.communications@merthyr.gov.uk neu ffoniwch (01685) 725000.



Elusennau'r Maer

Mae'r Maer yn cefnogi dwy elusen leol eleni:

#4Tom, a sefydlwyd gan deulu Tomas David Smerdon o Fedlinog, a fu farw yn 2019 yn ddim ond 22 oed. Mae'r elusen yn helpu pobl ifanc eraill sy'n dioddef o orbyrder, iselder, meddyliau hunanladdiad a chamdddefnyddio sylweddau sy'n achosi problemau iechyd meddwl gyda sesiynau cwnsela a grwpiau cymorth;

Friends of Greenfield, sy'n codi arian i ddarparu cyfleusterau ychwanegol i Ysgol Arbennig Greenfield.

Os hoffech wahodd y Maer i ddiwyddiad, neu gyfrannu at yr elusennau gwych hyn, cysylltwch â mayoral@merthyr.gov.uk



“Roedd yr holl wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn yn gywir ar adeg ei hargraffu.”



Dweud Eich Dweud

www.merthyr.gov.uk/council/have-your-say



Foster with your local authority

There are children in Merthyr who need a foster home. A safe place, a place to learn, and a place to laugh. A place to be loved.

Maethu gyda'ch awdurdod lleol

Mae yna blant ym Merthyr angen cartref maeth. Lle diogel, lle i ddysgu, a lle i chwethin. Lle llawn cariad.

maethu
cymru

foster
wales



merthyrtdful.maethucymru.llyw.cymru
merthyrtydfil.fosterwales.gov.wales

Fostering can be anything from an overnight stay, a short-break or longer-term. No two children are the same and every single one will need something different out of foster care.

That's why there is no typical foster family. With Foster Wales Merthyr, we'll give you the local expertise, financial support, and training you'll need to build better futures for local children.

Gall maethu fod yn unrhyw beth o arhosiad dros nos, seibiant byr neu dymor hwy. Mae pob plentyn yn wahanol a bydd angen gofal maeth gwahanol ar bob un.

Dyna pam nad oes teulu maeth nodweddiadol. Gyda Maethu Cymru Merthyr Tudful, eich cyngor lleol, byddwn yn rhoi'r arbenigedd lleol, cymorth ariannol, a'r hyfforddiant sydd eu hangen arnoch i adeiladu gwell dyfodol i blant lleol.

01443 425007

Hyb Cymorth Cynnar

Y Cyngor a Barnardos i barhau â'u partneriaeth hirdymor i ddarparu "Tim o Amgylch y Teulu" ar gyfer teuluoedd lleol sydd ei angen fwyaf.

Mae'r Cyngor a Barnardos's wedi ymestyn eu hymrwymiad i ddarparu cymorth atal i deuluoedd lleol drwy'r Hyb Cymorth Cynnar (EHH). Mae'r cytundeb newydd hwn yn sicrhau y bydd y gwasanaeth yn parhau y tu hwnt i 2026, gan roi cymorth Tim o Amgylch y Teulu y mae mawr ei angen i deuluoedd sydd wedi'u heffeithio gan heriau tlodi, iechyd, addysgol, perthnasoedd a rhieni.

Ers mis Ebrill 2022, mae 318 o deuluoedd wedi manteisio ar y cynnig, gan dderbyn asesiad trwy'r Hyb Cymorth Cynnar i edrych ar eu hanghenion unigol, ac yna cael gweithiwr allweddol Barnardos's i sicrhau bod y cymorth a'r gefnogaeth gywir yn cael eu darparu ar yr amser cywir.

Dyweddod y Cyngorydd Julia Jenkins, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol;

"Mae'r Hyb Cymorth Cynnar yn sicrhau bod lleisiau teuluoedd yn cael eu clywed a bod ganddynt fwy o reolaeth dros ba gymorth y gallant ei gael i wella eu hamgylchiadau. Mae'r cynllun cymorth yn cael ei ddatblygu gyda'r teulu, gan sicrhau eu bod yn cael dweud eu dweud bob cam o'r ffordd."

"Rydym yn falch bod 92% o deuluoedd sydd wedi cael mynediad i'r cymorth wedi adrodd am welliannau enfawr pan fyddant yn gadael y gwasanaeth."

"Mae hyn yn cynnwys 164 o aelodau teulu yn gweld gwelliant yn eu sefyllfa ariannol, a 268 yn gweld gwelliannau yn eu lles emosiynol meddyliol. Mae'r ystadegau wir yn siarad drostynt eu hunain."

Dim ond un o'r pecynnau cymorth sydd ar gael drwy ein Hyb Cymorth Cynnar yw Tim o Amgylch y Teulu, sydd wedi cefnogi 2714 o atgyfeiriadau ers mis Ebrill 2022.

Os ydych yn breswyllydd lleol gyda phlant 0-18 oed, gallwn eich cefnogi gyda chynghor ar:

- Tai
- Cyllid
- Iechyd Corfforol
- Iechyd Meddwl a Lles
- Heriau Ymddygiad
- Addysg a Magu Plant
- Cael mynediad at weithgareddau a chefnogaeth yn y gymuned leol

Am ragor o wybodaeth, neu i gwblhau hunan-atgyfeiriad:

☎ 01685 725000

✉ EarlyHelp.Hub@merthyr.gov.uk

Pawb yn wen o glust i glust wrth i dŷ gwydr newydd gyrraedd Tŷ Bargod Newydd

Mae preswylwyr a staff wrth eu boddau gyda'r tŷ gwydr pwrpasol y mae eu ffrindiau da o Dai Gwydr Cyfarthfa wedi'u hadeiladu ar eu cyfer. Mae pawb yn mwynhau tyfu llysiau drwy gydol y flwyddyn.

Mae cyfarfodydd wythnosol yn golygu bod amser o ansawdd yn cael ei dreulio gyda'i gilydd, yn rhannu syniadau a phrofiadau newydd wrth ddatblygu'r gerddi mewn partneriaeth.



Ydych chi'n barod am y gaeaf?

KNOW
YOUR
NUMBERS

Gwybod Eich Rhifau Argyfwng AM DDIM

105	Argyfwng Colli Trydan
0800 111 999	Argyfwng Nwy
01443 425011	Tim Dyletswydd Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol a Lles
01685 385231	Argyfwng Tu Allan i Oriau
01685 384489	Argyfwng Llifogydd

Cynghorion defnyddiol

Paratowch eich cartref – Cadwch fflachlamp yn ddefnyddiol rhag ofn colli trydan. Sicrhewch fod eich offer bob amser yn cael eu gwasanaethu gan beiriannydd cofrestredig Gas Safe i atal gwenwyno carbon monocsid. Gall aelwydydd bregus gael cymorth ychwanegol drwy'r Gofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth. Cysylltwch â'ch darparwr gwasanaethau i gael gwybod mwy.

Amddiffyn eich cartref – Os ydych chi'n credu y gallai fod perygl llifogydd, dylech gymryd pob rhagofal i amddiffyn eich cartref. Nid yw bagiau tywod ar gael ar gais a dim ond os bydd argyfwng llifogydd yn cael eu cyhoeddi. Gellir prynu bagiau tywod gan fasnachwr eich adeiladwr lleol.

Mewn Tywydd garw – Cadwch olwg ar ragolygon y tywydd. Os ydy'r trydan yn diffodd neu argyfwng nwy, gwiriwch eich cymdogion. I gael rhybuddion tywydd, ewch i metoffice.gov.uk neu naturalresources.wales. Os ydych chi'n sylwi ar fin graean sydd angen ei lenwi, ewch i merthyr.gov.uk

Cau Ysgolion - Mae pob ysgol yn gyfrifol am ddiweddaru eu statws a byddant yn rhoi gwybod i chi am unrhyw wybodaeth bwysig sy'n benodol i'r ysgol honno.

Cwpan Rygbi'r Byd Ysgolion Merthyr Tudful 2023

Ddydd Mercher 18 Hydref gwelwom dros 200 o ddisgyblion o bob rhan o Ferthyr Tudful yn cystadlu ac yn mwynhau diwrnod llawn hwyl yn nigwyddiad Cwpan Rygbi'r Byd Ysgolion Merthyr, a drefnwyd gan y Dosbarth 10 gwych yn Ysgol Gynradd Pantysgallog.

Cymerodd yr 20 ysgol gynradd ganlynol o Ferthyr ran yn y twrnau mair:

Pantysgallog, Dowlais, Ysgol Y Graig, Goetre, Gellifaelog, Gwaunfarren, St Illtyds, Santes Fair, St Aloysius, Parc Cyfarthfa, Coed Y Dderwen,



Heolgerrig, Twynyrodyn, Caedraw, Trelewis, Bedlinog, Troedryhiw, Ysgol Santes Tudful, Abercanaid, Edwardsville. Dywedodd Craig Lynch, Dirprwy Bennaeth Ysgol Gynradd Pantysgallog, wrthym: *"Roedd y gystadleuaeth yn gryf gyda chymaint o dalent yn cael ei arddangos. Rydym yn falch iawn*

o ymdrech ein Dosbarth 10 a staff Pantysgallog i wneud y diwrnod yn llwyddiant!

"Llongyfarchiadau i Ysgol Santes Tudful a oedd yn chwarae fel Ffrainc, ar drechu Twynyrodyn, a oedd yn chwarae fel Lloegr, yn y rownd derfynol ac a goronwyd yn bencampwyr."



Hefyd, hoffem longyfarch Ysgol Gynradd Parc Cyfarthfa ar ennill y wobwr Chwarae Teg, Ardderchog. "Roedd yn hyfryd gweld torf fawr o bobl leol, teuluoedd a ffrindiau yn bloeddio ar y disgyblion o'r teras. Diolch i chi gyd am ymuno â ni!"

Cydnabyddiaeth Rhagoriaeth i'r Adran Arlwy Ysgolion

Mae'n bleser gennym gyhoeddi bod Adran Arlwy Ysgolion Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi cipio'r wobwr Cydnabyddiaeth Rhagoriaeth ar gyfer Gwobr Bwyd mewn Ysgolion Llywodraeth Cymru.



Nod seremoni Gwobrau Cymdeithas Arlwy Awdurdodau Lleol (LACA), a gynhaliwyd ddydd Iau 26 Hydref yn Vale Resort Morgannwg Ganol, yw cydnabod unigolion a thimau sy'n parhau i wneud gwahaniaeth gwirioneddol mewn arlwy addysg.

Amserlen cyflwyno Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd

ADDYSG CYMRU
EDUCATION WALES
Yn parhau'n parhau i'w nodwdd mair

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Bydd yr amserlen cyflwyno gyda'ch Awdurdod Lleol neu'ch ysgol

Medi 2022	Ebrill 2023	Medi 2023	Ebrill 2024	Medi 2024
pob plentyn yn y Derbyn	pob plentyn yn y Derbyn o'r mwyafrif ym Mlyneddodd 1 a 2	mwyafrif y plant ym Mlyneddodd 3 a 4	mwyafrif y plant ym Mlyneddodd 5 a 6	pob plentyn hyd at Fflyddyn 6

Dywedodd Michelle Jones, Aelod Cabinet dros Addysg:

"Rwy'n falch iawn o'r cyflawniad hwn gan ein Hadran Arlwy Ysgolion ymroddedig a gweithgar

yma yn CBS Merthyr Tudful.

"Mae'n wych gweld eu hymrwymiad i ddarparu gwasanaeth o'r ansawdd gorau bob amser yn cael ei gydnabod a

gallwn ganu eu clod gyda'r wobwr drawiadol hon. Da iawn bawb!"

Diddordeb mewn dod yn llywodraethwr o fewn ysgol ym Merthyr Tudful?

Mae llywodraethwyr ysgol yn chwarae rhan hanfodol mewn addysg, gan wneud gwahaniaeth drwy lunio dyfodol plant a phobl ifanc lleol.

Beth yw Llywodraethwr?

Gwirfoddolwyr yw llywodraethwyr,

ac maent yn cydweithio'n glòs â Phenaethiaid a staff ysgolion fel rhan o'r strwythur arwain a rheoli cyffredinol. Mae'r corff yn helpu i lywodraethu fframwaith yr ysgol, a'r Pennaeth sy'n gyfrifol am y gwaith rheoli o ddydd i ddydd.

Ar y cyd, nhw sy'n gyfrifol am reoli cyllideb yr ysgol, recriwtio staff, meithrin cysylltiadau â rhieni a'r gymuned, a hyrwyddo safonau uchel o ran cyraeddiadau addysgiadol. Y Boddhad a gewch o fod yn Llywodraethwr

- Y cyfle i ddatblygu sgiliau newydd ac ymgymryd â hyfforddiant am ddim a ddarperir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Chonsortium Canolbarth y De ar wahanol agweddau o'ch rôl fel llywodraethwr.
- Y wybodaeth eich bod wedi chwarae rhan i wella addysg y plant a chefnogi staff yr ysgol.
- Y cyfle i weithio fel rhan o dîm. Darganfod mwy www.merthyr.gov.uk/resident/learning-in-merthyr-tudful/school-governors/



Ailgylchu'r Nadolig hwn!



Bydd eich casgliad ddiwrnod yn hwyrach dros gyfnod y Nadolig:

DIWRNOD CASGLU ARFEROL:	YN CAEL EI GASGLU:
Dydd Llun Rhagfyr 25ain	Dydd Mercher Rhagfyr 27ain
Dydd Mawrth Rhagfyr 26ain	Dydd Iau Rhagfyr 28ain
Dydd Mercher Rhagfyr 27ain	Dydd Gwener Rhagfyr 29ain
Dydd Iau Rhagfyr 28ain	Dydd Sadwrn Rhagfyr 30ain
Dydd Gwener Rhagfyr 29ain	Dydd Sul Rhagfyr 31ain
Dydd Llun Ionawr 1af	Dydd Mawrth 2il
Dydd Mawrth Ionawr 2il	Dydd Mercher Ionawr 3ydd
Dydd Mercher Ionawr 3ydd	Dydd Iau Ionawr 4ydd
Dydd Iau Ionawr 4ydd	Dydd Gwener Ionawr 5ed
Dydd Gwener Ionawr 5ed	Dydd Sadwrn Ionawr 6fed

Casglu gwastraff cartref mawr

Ni fydd casgliadau gwastraff mawr dros gyfnod y Nadolig. Y diwrnod olaf fydd Dydd Gwener Rhagfyr 22 ain a byddant yn ail gychwyn ddydd Mercher Ionawr 10 fed

Ailgylchu Coed Nadolig

Bydd Coed Nadolig Iawn yn cael eu casglu ar gais yn unig. Gellir archebu casgliad rhwng dydd Llun Rhagfyr 18fed ac Ionawr 3ydd..

Sut i archebu:

Ar-lein: merthyr.gov.uk/book-a-christmas-tree-collection
Rhif Ffôn: 01685 725000

Bydd casgliadau yn cychwyn ddydd Llun Ionawr 9fed. Rhaid torri'r coed yn ddarnau llai, dim hirach na 1.5 metr a dim trymach na 25kg.

Canolfannau Ailgylchu a Gwastraff Cartref (CAGC)

Bydd ein CAGC ar gau ar dydd Nadolig, Gwyl San Steffan a Dydd Calan. Bydd ar agor yn ystod oriau agor y gaeaf (9am – 4.30pm) ar bob dyddiad arall.

Ailgylchu

Ailgylchwch bopeth gallwch dros gyfnod y Nadolig, ar y pafin neu'r CAGC.

Gair i gall:

- Mae papur brown yn cyfri fel papur lapio a gallwch ei ailgylchu yn eich blwch cardfwrdd.
- Gall papur lapio sy'n ailgylchadwy gael ei osod yn eich blwch ailgylchu papur. Rhaid gosod papur lapio an-ailgylchadwy disglair neu llawn gliter yn y bin gwastraff cyffredinol llwyd oherwydd y deunydd cymysg o fewn y cynnyrch hwn.
- Er mwyn atal gwastraff, pam na wnewch chi ddefnyddio bagiau rhodd y gellir eu hailddefnyddio yn lle papur lapio eleni!

- Plygwch neu torrwrch flychau cardfwrdd er mwyn iddynt ffitio i mewn i'ch blwch ailgylchu. Symudwch unrhyw ddeunyddiau eraill ymaith cyn ailgylchu.
- Rhwgwrch gefn eich cardiau Nadolig a'u hailgylchu yn y blwch cardfwrdd. Bydd yn rhaid i unrhyw ran o'r garden sy'n cynnwys gliter neu rubanau fynd i'r bin ysbwriel cyffredinol.
- Peidiwch ag anghofio ailgylchu eich batris y tu allan i'ch tŷ drwy gael gafael ar fag porffor o'ch llyfrgell leol neu o'ch Canolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref.
- Ailgylchwch unrhyw oleuadau neu addurniadau trydanol hynafol neu sydd wedi torri mewn bag plastig wrth ymyl eich bocs ailgylchu.
- Ailgylchwch eich ffoil glân yn y bag glas
- Lleihewch wastraff bwyd ac arbedwch arian drwy gynllunio prydau bwyd gyda'r bwyd sydd dros ben.
- Ailgylchwch yr holl fwyd nad ellir ei fwyta.
- Ydych chi'n bwriadu clirio nwyddau o'ch tŷ cyn y Nadolig? Rhowch unrhyw eitemau da, glân y gellir eu hailddefnyddio i siop Bywyd Newydd ym Mhentrebach CF48 4DR.

Os nad ydych chi'n siŵr beth allwch eu hailgylchu, ewch at ein gwefan: merthyr.gov.uk/resident/bins-and-recycling/how-to-recycle-correctly

Gwaith atal tirlithriad: Cau rhan o Heol Faenor

Yn mis Medi caeodd rhan o Heol Faenor rhwng Aberglais Inn a Dol-Y-Coed House am gyfnod o oddeutu saith mis.

Yn ystod y tair blynedd ddiwethaf, mae'r Cyngor wedi bod yn cydweithio â daearegwyr, peiriannwyr geotechnegol a chontractwyr arbenigol er mwyn ymchwilio i achos y tirlithriadau a datblygu argymhellion i weithredu cynllun sefydlogi ar gyfer y lan sydd uwch Heol Faenor.

Mae ymchwiliadau a gwaith adfer dros dro wedi'u cynnal dros y blynyddoedd diwethaf, ac mae hyn wedi bod yn hanfodol er mwyn cynllunio datrysiad hirdymor, parhaol ac atal tirlithriadau rhag digwydd yn y dyfodol.

Rydym yn awr mewn sefyllfa i

weithredu'r cynllun parhaol ond bydd hyn yn golygu y bydd rhaid cau rhan o Heol Faenor rhwng Aberglais Inn a Dol-Y-Coed House am gyfnod o oddeutu saith mis.

Er y byddai wedi bod yn well gennym wneud y gwaith hwn yn ystod misoedd y gwanwyn/haf, mi fyddai gwneud hynny wedi tarfu ar dwristiaeth a busnesau'r ardal, felly er mwyn lleihau'r effaith ar y gymuned, gymaint ag y sydd yn bosib, cynlluniwyd i'r gwaith ddechrau yn yr hydref. Mae cyllid Llywodraeth Cymru hefyd yn dod i ben y flwyddyn nesaf, felly roedd yn hanfodol symud ymlaen cyn i'r cyllid ddod i ben.

Ni fydd yn bosib i unrhyw gerbyd basio drwy'r rhan hon o'r ffordd yn ystod cyfnod y gwaith. Bydd y gwyriad yn mynd trwy Pant – gweler wybodaeth ar wefan y Cyngor.

Cwestiynau? Cysylltwch â engineeringandtraffic@merthyr.gov.uk

Cerbydau Trydan yw' dyfodol

Dywed y Cyngorydd Michelle Symonds, Aelod y Cabinet dros Adfywio; "Mae ein hymrwymiad a'n cynnydd i gefnogi isadeiledd Cerbydau Trydan dibynadwy yn ychwanegiad gwych i'r dref a'r Fwrdeistref. Mae cyllid gan Ranbarth Prifddinas Caerdydd wedi golygu bod Cyfnod 1 wedi ei gwblhau ac nawr rydym yn symud ymlaen i sod hyd at 10 safle posib arall."

Gellir gweld rhestr gyflawn o fath a mannau gwefru yma;

Lleoliadau	Codpost	Math a Nifer Mannau gwefru	
		22 kw	7 kw
Maes Parcio Stryd Fictoria	CF48 3RN	2	0
Maes Parcio Canolfan Hamdden Rhydycar	CF48 1UT	4	0
Maes Parcio Trelewis	CF46 6AB	2	0
Maes Parcio Stryd Perrott	CF46 5ET	2	0
Maes Parcio Pontmorlais	CF47 8UN	2	0
Maes Parcio'r Orbit	CF48 1DL	0	2
Maes Parcio'r Castell	CF47 8JD	4	0
Maes Parcio Stryd Gilar	CF47 8DP	2	0
Maes Parcio Santest Tudful (Coleg)	CF48 1AR	2	4

Am fwy o wybodaeth am ddefnyddio a gweithredu y mannau gwefru hyn ewch at wefan Connected Kerb ar: www.connectedkerb.com



CONNECTED KERB

PWYNTIAU GWEFRU CERBYDAU TRYDAN

YMA NAWR

Cenhadaeth i greu strydoedd glanach, tawelach

UK Government
Llywodraeth y DU

Prifddinas
Ranbarth
Caerdydd

Cardiff
Capital
Regions

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

200 o dai newydd yn dod i Ferthyr Tudful



Mae cronfa buddsoddi mewn tai Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCR) yn dod â 200 o gartrefi newydd y mae mawr eu hangen i ardal Abercanaid ym Merthyr Tudful.

Lansiwyd y Gronfa Fwlch Hyfywedd Tai gwerth £35m yn 2021 gan CCR i ysgogi'r farchnad dai drwy helpu i ddatgloi safleoedd tai a oedd wedi'u hatal yn flaenorol ar draws y rhanbarth.

Mae £3.5m o'r gronfa wedi'i sicrhau ar gyfer Parc y Ddraig, Merthyr Tudful, ar gyfer gwaith gan gynnwys adfer tir a seilwaith datblygu cysylltiedig. Bydd y gwaith hwn yn datgloi 200 o unedau, a bydd hyd at 20% ohonynt yn gartrefi fforddiadwy.

Bydd y gwaith adfer wedi'i gwblhau ar y safle erbyn mis Tachwedd 2024 a disgwylir i'r tai gael eu codi erbyn Rhagfyr 2028. Mae'r datblygwr, Davies Homes Ltd, yn gwmni adeiladu tai teuluol a sefydlwyd gan Michael Davies yn 1986. Ers hynny, mae wedi adeiladu dros 2,500 o gartrefi, yn bennaf yng Nghymoedd De Cymru. Maent yn arbenigo mewn safleoedd tir llwyd lle mae cloddfeydd yn y gorffennol yn gyffredin.

Dywedodd y Cynghorydd Michelle Symonds, Aelod Cabinet dros Adfywio, Tai a Diogelu'r Cyhoedd: "Mae'r cyllid hwn yn fuddsoddiad i'w groesawu'n fawr ym Merthyr Tudful a bydd yn dod â chartrefi mawr eu hangen i'r ardal. Bydd y brif fynedfa i'r safle o'r de trwy'r gylchfan bresennol wedi'i huwchraddio a bydd ffordd yn mynd o amgylch "man agored aml ddefnydd" sydd i'w ddefnyddio ar gyfer hamdden, chwarae a draenio cynaliadwy ac mae Davies Homes hefyd yn anelu at gyflwyno cynefinoedd bioamrywiaeth newydd. Bydd digon o fannau agored ar y safle ynghyd â llwybrau teithio llesol, gan gynnwys llwybr ar gyfer beicwyr a cherddwyr."

Dywedodd Matthew Davies, Rheolwr Gyfarwyddwr Davies Homes: "Mae'r cydweithrediad â Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ar safle Parc y Ddraig wedi bod yn hynod gadarnhaol a bydd yn caniatáu i ni adeiladu'r cartrefi newydd gwyh hyn yn Abercanaid. Mae'r bartneriaeth adeiladol gyda'r Cyngor a CCR wedi'i chynnal drwyddi draw, gan roi'r cyfle i ni ddatgloi safle tir llwyd a dod â datblygiad preswyl cyffrous arall ymlaen ym Merthyr Tudful. Rydym yn hyderus y bydd y datblygiad yn llwyddiant mawr ac edrychwn ymlaen at gyflwyno'r cynllun hwn a pharhau â'n partneriaeth â CBSMT"

Adfywio

Gwesty moethus yn agor ar safle becws hanesyddol lleol ym Merthyr Tudful

Yr Hydref hwn, bydd canol tref Merthyr Tudful yn gweld gwesty moethus newydd yn agor – o fewn adeilad hanesyddol becws, Howfield's & Son (sefydlwyd. 1921).

Bydd Datblygiad tua £2m Gwesty Howfields yn gweld agor bwyty moethus, bar a 13 o fflatiau preifat moethus – gan ddod a chyfnod newydd modern a gwedd osgeiddig i ganol y dref.

Wrth y llyw ar y project mae'r cwmni datblygu o Lyn-nedd, RWP Properties, sydd wedi buddsoddi'n sylweddol yn y fenter.

I gydnabod yr effaith y bydd y project yn ei chael ar ganol y dref, derbyniodd RWP Properties hefyd gymorth gwerth £770k gan fenter Trawsnewid Trefi Llywodraeth



Cymru a chyllid gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Canolbwynt y datblygiad fydd y gwesty moethus, a fydd yn cynnig wyth ystafell wely ddwbl - pob un wedi'i ffitio â dodrefn hardd ac amwynderau, gyda'r nod o ddenu teithwyr hamdden a busnes sy'n chwilio am arhosiad moethus a chyfforddus. Fodd bynnag, mae cynnwys bwyty uchel ei barch o Abertawe, Haystack, a bar newydd chwaethus — o'r enw 'Needle' yn ychwanegu mwy o gyffro i'r datblygiad. Gan ehangu o Abertawe i'r Cymoedd, bydd Haystack ym Merthyr Tudful yn gweini brecwast,

cinio a bwydlenni gyda'r nos, gan ddarparu pryddau blasus sy'n darparu ar gyfer pob chwaeth. Bydd y busnes hefyd yn manteisio ar deras allanol yng nghefn yr eiddo — gan gynnig profiad bwyta hudolus o fewn amgylchedd cyfforddus.

I gydnabod pwysigrwydd cefnogi busnesau lleol, mae RWP Properties hefyd wedi ymrwymo i gynnal caffi poblogaidd, Café N Joy — sydd eisoes yn bodoli o fewn yr eiddo. Mae'r caffi cyfan wedi cael ei adnewyddu'n feddylgar, trwy garedigrwydd RWP, bydd hyn yn cyfrannu ymhellach at arlwy goginiol fywiog canol y dref.

BillyChip

Mae'r cynllun yn dymchwel rhwystrau ac yn cynnig ffordd ddiogel i gyfrannu i'r rheini sydd yn cysgu yn yr awyr agored neu sydd yn ddigartref heb boeni y gallai'r arian gael ei ddefnyddio i brynu alcohol neu gyffuriau. Gall aelod o'r cyhoedd brynu tocyn BillyChip, gwerth £2 o siop neu fusnes sydd yn cyfranogi yn y cynllun, fel siop goffi. Gallant gadw'r tocyn yn ddiogel a'i roi i berson anghenus. Gall y sawl sydd yn derbyn y tocyn ei ddefnyddio er mwyn prynu diod neu fyrbryd yn un o'r busnesau sydd yn rhan o'r cynllun.

Dywedodd Geraint Thomas, Arweinydd y Cyngor:

"Rwy'n falch fod busnesau lleol ym Merthyr Tudful yn cydnabod pwysigrwydd cynllun BillyChip ac yn ymuno â'r cynllun dyfeisgar hwn a fydd yn cynnig ffordd ddiogel a hawdd i aelodau'n cymuned allu cynorthwyo'r sawl sydd mewn angen.

"Os hoffech gynorthwyo, byddwn yn eich annog i brynu tocyn BillyChip a'i roi i berson anghenus, yn hytrach na rhoi arian gan y

gall y tocyn gael ei ddefnyddio'n ddiogel mewn lleoliadau fel Hideout er mwyn prynu diod boeth neu fyrbryd."

Dywedodd Michelle Symonds, Aelod o'r Cabinet ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd:

"Rwy'n ddiolchgar i Gaffi Hideout am arwain y ffordd ym Merthyr Tudful ac rwy'n annog lleoliadau bwyd eraill i ystyried gwneud yr un fath; dangos caredigrwydd i eraill, drwy'r dref."

Mae'r cynllun yn un unigryw, gafodd ei sefydlu, er cof am Billy Abernethy-Hope; gyrrwr ambiwlans, 20 mlwydd oed a fu

farw yn 20018. Breuddwyd Billy oedd annog haelioni ymhlith y rheini sydd yn gyndyn i gyfrannu arian i'r digartref. Bu farw Billy cyn iddo weld ffyrwyth ei lafur ond mae ei deulu wedi parhau i wireddu ei ddyhead.

Dywedodd Natasha Price, perchennog Hideout; "Mae'n wych i'r gymuned allu rhoi rhywbeth yn ôl i'r digartref a hynny heb boeni am roi arian yn uniongyrchol gan wybod eu bod yn rhoi rhodd o fwyd neu ddiod peth trwy'r tocyn BillyChip. Mae'n wych i'r cymuned."



Mae gwaith adnewyddu adeilad y YMCA yn parhau



Mae Rhan Dau o adnewyddiad adeilad y YMCA gynt, ym Mhontmorlais, bron wedi ei gwblhau. Mae'r adeilad rhestredig Gradd II, sydd wedi bod yn dafleio ers dros ddegawd, wedi ei sefydlogi erbyn hyn ac mae'n dal dŵr. Dyma enghreifftiau o o'r gwaith a wnaed:

- Cyfneddiwyd gwarddrysau pren am rai newydd, concrid.
- Ail-adeiladwyd adran ogleddol yr

adeilad, gyda lloriau pren a welydd i gefnogi to newydd dros dro.

- Ail-adeiladwyd, yn rhannol, muriau cynhaliol.
- Gosodwyd angorau yn y dddear er mwyn sefydlogi'r tir rhydd/ gwan allanol.
- Gosodwyd angorau Cintec er mwyn cryfhau'r waliau bric allanol
- Ailosodwyd to dros dro, gyda tho dros dro newydd fydd yn para'n hirach.
- Gwaith bric newydd ar ben yr adeilad.
- Adnewyddwyd y terracotta er mwyn diogelu'r blociau terracotta presennol.
- Ail-bwyntiwyd yr adeilad cyfan a rhoddwyd triniaeth i'r adeilad er

mwyn lleihau'r peryg o blanhigion yn tyfu eto.

- Gosodwyd ffens fetel newydd er mwyn cyd-fynd â'r gofeb wal sydd yno'n barod.
- Adferwyd y rhodfa at ddefnydd y cyhoedd.

Daeth Rhan Un i ben yn 2014 fel rhan o Fenter Treftadaeth Treflun, cynllun sydd â'r nod o atgyfodi adeiladau hanesyddol ym Mhontmorlais, sydd wedi mynd yn ddeffion, er mwyn gallu eu defnyddio eto. Ariannwyd y cynllun drwy Gronfa Dreftadaeth y Loteri a CADW.

Yn dilyn cwblhau'r cam hwn – disgwylir i contractwyr fod oddi ar y safle erbyn diwedd Ionawr 2024 – byddwn yn edrych tuag at Gam

tri, a fydd yn cynnwys ail-asesiad o ddefnydd yr adeilad yn y dyfodol ac yna cwblhau'r gwaith unwaith y cytunir ar ddefnydd addas.

Meddai Michelle Symonds, yr Aelod Cabinet ar gyfer Adfywio: "Mae'n wych gweld y datblygiadau sydd ar waith yn adeilad y YMCA."

"Nid yn unig ydy cwmni Contractwyr John Weaver wedi llwyddo i sefydlogi'r adeilad ond maent hefyd wedi trawsnewid golwg y lle. Nid yn unig ydy'r adeilad yn llawer mwy diogel, ond mae'r adeilad hefyd yn gain, maent wedi llwyddo i ddod â'r strwythur prydferth yn agosach at ei ogoniant blaenorol."

"Erbyn hyn rydym yn edrych ymlaen at gwblhau'r gwaith ac at benderfyniad ynghylch ei ddyfodol."

Mae ein Gwardeiniaid Canol Dre yn gweithio i'ch cadw chi'n ddiogel yn ystod miri'r wyl

P'un ai ydych chi'n siopa, yn mwynhau parti Nadolig, neu ond allan yn crwydro canol y dre – mae ein Gwardeiniaid yma i'ch cadw chi'n ddiogel ac i sicrhau bod eich profiad chi o ganol o dre mor bleserus â phosib. Gallwch ddod o hyd i'n Gwardeiniaid yn crwydro'r dre a'r strydoedd cyfagos yn ei siacedi coch, nodweddiadol. Maent yma i dawelu meddwl ac i gynorthwyo gydag unrhyw broblemau yng nghanol y dre. Meddai'r Warden Huw Wilson: "Rydym wedi bod yn cychrodio'r dre dros y pedwar mis diwethaf felly rydym yn gobeithio eich bod wedi gweld gwelliant mewn rhai ardaloedd. "Rydym wedi gwrandao ar eich rhwystredigaethau'n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol ac rydym wedi ymgysylltu gyda'r unigolion hyn, wrth wasgaru torfeydd mawr pan maent yn ymgynnull, ac wrth ymateb i'w gweithredoedd. Yn ddiweddar, fe weithiom gyda rhai ohonynt er mwyn clirio llystyfiant

mewn eglwys leol, ac felly rydym yn ymgysylltu â nhw drwy weithgareddau cadarnhaol sy'n gwella'r dre.

"Rydym yn gweithio'n agos iawn gyda'r Swyddogion Cymorth Cymunedol er mwyn eu cynorthwyo i atal troseddau, yn ogystal â gweithio gyda gweithwyr Systemau Teledu Cylch Cyfyng. Mae'r System Deledu Cylch Cyfyng, sy'n gweithredu drwy gydol canol y dre, yn fantais fawr i ni wrth iddi ein helpu gyda digwyddiadau, recordio ffilm i ni allu ei darparu i'r heddlu a'n harwain ni at unrhyw ardaloedd o bryder.

"Os welwch chi ni, byddwch siŵr o ddweud helô – rydym yma i'ch cynorthwyo!" Os ydych yn cael trafferth yng nghanol y dre, cysylltwch â'r Gwardeiniaid os gwelwch yn dda:

Haley: 07566 297440
Mathew: 07566 297444
Huw: 07566 297479

Datblygiad safle'r Clastir yn dechrau

Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo pecyn cyllid ar gyfer ailddatblygu hen safle'r orsaf fysiau.

Bydd contractwyr ar y safle o 8 Ionawr 2024 a disgwylir i'r gwaith gael ei gwblhau ddiwedd y Gwanwyn.



Glebeland Site - Proposed Amenities and Arrangement

Funded by UK Government | Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

HELP CYNNAR
Helpu teuluoedd i gael y cymorth cywir ar yr adeg gywir.

CYMORTH DIGIDOL
Mynediad at holl wasanaethau'r cynghor, glic i ffwrdd.

CYFLOGADWYEDD
Cymunedau i waith*, Cymorth gydag uwchsgilio, hyfforddiant a gwaith.

CYMORTH A CHYNGOR GDYA LLES, BUDD DAL A THAI
Eiddau a pharhaethau i'w rhoi i'w gwaith.

am fwy o wybodaeth
e-bostiwch: TownCentreHub@merthyr.gov.uk

FFYNIANT BRO LEVELLING UP





Grŵp Barddoniaeth Tŷ Bargod Newydd

Mae Tŷ Bargod Newydd yn gartref i bobl hŷn - rhai ohonynt â dementia. Mae'r cartref wedi'i leoli yn Nhreharris, ac mae amrywiaeth o weithgareddau ar gael, ac mae un ohonynt yn grŵp barddoniaeth llwyddiannus. Roedd y trigolion yn dymuno dangos eu creadigrwydd a'u hiwmor drwy rannu'r gerdd fendigedig hon.



Open The Door And Let Me In

*Into this paradise so golden
You can come to live with us when you are olden*

Tŷ Bargod is very nice

They serve lovely tea and cake by the slice

The people there are very caring

All the time they are sharing

The food here is plenty and tasty

You will put on five stone and become very waistie

But with our aerobics class every morning

*It will wake you up and put a stop to your yawning
We are surrounded by gardens with flowers so bright*

In the summer it's such a beautiful sight

We love to get together and have a sing song

We think we sound amazing but our tone may be slightly wrong

*Anyway what matters is that we are a happy bunch
especially at 12 o'clock when we sit down to lunch*

*Tŷ Bargod Newydd residents welcome you to our home
and hope you will stay a while*



Dangoswch cymaint rydych yn meddwl ohonynt gyda rhoddion unigryw o ganol tref Merthyr Tudful!

Mae Cerdyn Rhodd Merthyr yn cael ei dderbyn gan amrywiaeth o fusnesau canol y dref. Mae'n hawdd ei brynu ac yn hwyl ei wario, yr anrheg gorau unrhyw bryd.

CEFNOGI EICH CANOL TREF



www.merthyrgiftcard.com

0 £5 to £500

Cylch Meithrin Y Gurnos yn ennill Cylch Meithrin Cymraeg gorau De

Ddwyrain Cymru

Bwriad Seremoni Wobrwyo Flynyddol Mudiad Meithrin, a gynhaliwyd ar Hydref 14eg, yw cydnabod a dathlu'r gwaith rhagorol a gyflawnwyd yng nghylchoedd chwarae a meithrinffeydd dydd cyfrwng Cymraeg Mudiad Meithrin ledled Cymru.

Dywedodd Leanne Marsh, Pennaeth Datblygu Gwasanaethau Mudiad Meithrin:

"Mae ein Seremoni Wobrwyo yn ffordd wych o godi proffil y gweithlu a lleoliadau blynyddoedd cynnar ac mae'n dangos pa mor bwysig yw'r gwasanaeth hwn i'r gymuned leol ac i'r economi. Derbyniwyd dros 300 o enwebiadau eleni, ac mae'n ffordd hyfryd i'r staff a'r gwirfoddolwyr gael eu cydnabod trwy gael eu henwebu gan rieni'r plant yn eu gofal." Mae'n bleser gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

gyhoeddi bod ein Cylch Meithrin Y Gurnos wedi ennill gwobr Cylch Chwarae Gorau De Ddwyrain Cymru. Dywedodd y Cyngorydd Michèle Symonds, Hyrwyddwr y Gymraeg: "Mae'r Awdurdod Lleol yn hynod falch o glywed fod Cylch Meithrin y Gurnos wedi ennill y wobwr am y Cylch Meithrin gorau yn Ne Ddwyrain Cymru.

"Mae tyfu addysg cyfrwng Cymraeg yn elfen allweddol o'n cynllun strategol Cymraeg mewn Addysg ac mae'r wobwr hon yn cefnogi ein huchelgais.

"Mae'r cylch chwarae yn ychwanegiad newydd i'r gymuned, gan agor ei ddrysau ym mis Ionawr 2023, felly mae hyn yn wir yn gyflawniad gwych. Da iawn i'r staff a'r pwyllgor rheoli sydd wedi gweithio'n galed i ddatblygu'r lleoliad ers iddo agor. Llonyfarchiadau i bawb!"

I ddarganfod mwy am Cylch Meithrin Y Gurnos ewch i meithrin.cymru/cylchs/y-gurnos

